Rhifyn 6, Rhagfyr 07 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC yn Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda gan bawb yn UCAC!
Mae nod llyfr yn anrheg Nadolig i chi gyda'r rhifyn hwn o *Yr Athro.*

Dros y ddegawd ddiwethaf, mae nifer staff Prif Swyddfa UCAC wedi cynyddu'n fawr. Daeth datganoli â llwyth gwaith a gofynion ychwanegol sylweddol ar staff y swyddfa. Bellach dyma ein swyddogion:

- Ysgrifennydd Cyffredinol
- Swyddog Maes y De
- Swyddog Maes y Gogledd
- Swyddog Polisi

Yn ychwanegol at hyn, mae gennym Nan, Delyth, Mair a Margaret yn gweithio yn y swyddfa. Does dim dwywaith bod y datblygiad hwn wedi cael effaith sylweddol ar safon a phroffesiynoldeb ein gwasanaeth i chi ein haelodau.

Pen Roc

Symudwyd o Gaerdydd yn yr wyth degau i ymgartrefu yn ein swyddfa bresennol ym Mhen Roc, Aberystwyth. Bu'r adeilad yn gaffaeliad mawr i'r Undeb, a thros y blynyddoedd mae wedi ateb gofynion ac anghenion UCAC a sicrhau ein gallu i ehangu a gwella ein gwasanaeth. Erbyn hyn mae'r swyddfa bresennol yn anaddas ar gyfer ein gofynion. Mae'r ystafelloedd yn fach iawn, y grisiau'n serth (gan gynnwys grisiau i mewn i'r swyddfa), diffyg lle storio ac wrth gwrs, problem sydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, sef diffyg lle i barcio.

Swyddfa newydd

Ers peth amser, mae Ymddiriedolwyr UCAC wedi bod yn ymwybodol bod angen swyddfa newydd arnom ac maent wedi bod wrthi'n chwilio am adeilad addas. Edrychwyd ar bob opsiwn: rhentu, safle ar y stad ddiwydiannol, adeiladu swyddfa o'r newydd neu brynu adeilad i'w addasu.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi ein bod wedi prynu adeilad ar gyfer ei addasu yn swyddfeydd. Mae gwaith i'w wneud i addasu'r adeilad, ond cred yr Ymddiriedolwyr y bydd yn fuddsoddiad ar gyfer y dyfodol ac y bydd yn y diwedd yn adeilad pwrpasol ac addas ar gyfer datblygu'r undeb ymhellach yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd yno ddigon o le ar gyfer parcio ceir yr aelodau sy'n dod i'r amryfal bwyllgorau a chyfarfodydd! Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i nodi pryd y bydd yr adeilad yn barod ar ein cyfer; yn bersonol, credaf y bydd popeth wedi ei gwblhau erbyn haf 2008.

Credaf fod parodrwydd yr undeb i fuddsoddi fel hyn yn y dyfodol yn datgan yn glir hyder y swyddogion, yr Ymddiriedolwyr a'r Cyngor Cenedlaethol yn nyfodol UCAC.

Gruff Hughes
Ysgrifennydd Cyffredinol

t2 Gwasanaeth Boreol t3 "Mae pawb yn siarad Cymraeg..." t4 Adnoddau

Tâl Aelodaeth 2008

O'r 1af Ionawr 2008, bydd tâl aelodaeth llawn UCAC yn codi £6 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 50c y mis. Bydd y tâl aelodaeth ar gyfer aelodau rhan-amser yn codi £3 y flwyddyn sy'n cyfateb i 25c y mis yn ychwanegol. Os ydych yn talu'n fisol trwy'r banc, nid oes angen i chwi wneud dim. Bydd y newidiadau yn cael eu gwneud ym mhrif swyddfa UCAC.

Nid yw tâl aelodaeth UCAC wedi codi ers Ionawr 2006, felly dim ond cyfateb i chwyddiant mae'r codiad yn Ionawr 2008 (sef dwy flynedd ers y codiad diwethaf). Sylwer bod tâl aelodaeth UCAC yn cymharu'n ffafriol iawn â'r undebau eraill, ac wrth gwrs mae'n rhaid cofio mai dim ond dros athrawon Cymru y mae UCAC yn gweithredu. UCAC yw'r unig undeb sydd â'i bencadlys yng Nghymru, ac sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni yw'r unig undeb all weithredu ar ran athrawon Cymru heb ofyn caniatâd pencadlys yn Llundain.

Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol

Categoriau Aelodaeth 2008

1	Yn gweithio'n llawn amser, ac â blwyddyn a thymor neu fwy o wasanaeth	**£138.00** (**£11.50** y mis)
2	Yn gweithio'n rhan amser – dros hanner amser	**£93.00** (**£7.75** y mis)
3	Yn gweithio'n rhan amser – hanner amser neu lai	**£75.00** (**£6.25** y mis)
4	Ar y tymor cyntaf ac yna'r flwyddyn galendr lawn gyntaf o addysgu wedi gadael coleg	**dim tâl**
5	Athrawon dan hyfforddiant	**dim tâl**
6	Cyfaill	**£24.00**

Gwasanaeth Boreol

Ar hyn o bryd, mae'n statudol bod pob ysgol i ddechrau'r diwrnod ysgol trwy gynnal gwasanaeth gyda'r disgyblion wedi ymgynnull yn yr un lle. Mae hyn yn bosibl ac yn digwydd yn y rhan helaeth o'n hysgolion cynradd. Yn anffodus, nid yw'n gorfforol bosib gwneud hyn mewn nifer o ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Does dim ystafell neu neuadd sy'n ddigon mawr i bawb ymgynnull ynddi.

Deallwn fod ysgolion wedi addasu'r orfodaeth ar gyfer eu hysgolion unigol. Mae rhai yn cynnal gwasanaeth fesul blwyddyn, fesul llys neu fesul dosbarth. Mae'r gwasanaethau'n cael eu cynnal yn y neuadd neu yn y dosbarth. Cynhelir rhai gwasanaethau'n ddyddiol ac weithiau'n wythnosol. **Prif fyrdwn yr erthygl hon yw dweud ei bod yn aml yn gorfforol amhosibl i bob ysgol weithredu eu cyfrifoldeb statudol, ac wrth ei addasu, maent yn dechnegol yn torri'r gyfraith!**

Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol UCAC ddydd Gwener 19 Hydref yn dilyn cais gennyf am arweiniad. Mae'n bosib y bydd yr undebau athrawon, ar y cyd, yn ceisio newid y rheol statudol ar gyfer Cymru. Yn dilyn trafodaeth hir a bywiog, penderfynwyd mai **argymhelliad UCAC** fyddai fod hawl gan y Pennaeth a'r Llywodraethwyr i benderfynu sut a phryd i gynnal gwasanaeth, cyn belled â bod gwasanaeth torfol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith yr wythnos.

Ydych chi'n cytuno â hyn? Hoffwn wybod beth yw eich barn chi. Os ydyw'n groes i argymhellion y Cyngor Cenedlaethol, a chithau'n teimlo'n gryf am hyn, beth am wneud cynnig i'ch Cynhadledd Sir UCAC?

Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Robert Howells
Ysgrifennydd Cyffredinol: Gruff Hughes
Golygydd *Yr Athro:* Gwenllïan Dafydd
Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Nan Williams, Prif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: ucac@athrawon.com www.athrawon.com
Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Cynnwys Pawb

Isod mae astudiaeth achos gan Changing Faces Cymru sy'n rhoi un enghraifft ddefnyddiol ar gyfer gwers, ac yn dangos pa mor syml, effeithiol, rhad a phosibl yw gwella'r amgylchedd dysgu a chymdeithasol. Gellir ei defnyddio mewn unrhyw sefyllfa lle ceir plentyn sydd yn ei gweld hi'n anodd cymysgu ag eraill, ond bydd o fudd penodol i athrawon sydd am geisio sicrhau bod plentyn sydd ag anffurfiad (*disfigurement*) yn teimlo'n hapus ac yn hyderus yn y dosbarth. Cyhoeddwyd erthygl gan Changing Faces Cymru yn *Yr Athro* (Chwefror 2007) yn rhoi cyngor arbenigol ynghylch sefyllfa o'r fath (gweler gwefan UCAC www.athrawon.com os nad yw'r erthygl yn dal yn eich meddiant).

Astudiaeth Achos

Roedd Daisy yn chwech oed ac roedd ganddi greithiau o anafiadau llosgi difrifol. Roedd wedi treulio llawer o amser yn yr ysbyty ac roedd hi'n dawedog iawn yn yr ysgol. Aeth y plant yn nosbarth Daisy ati i dorri siapiau gweddol fawr o bobl allan o bapur lliw cadarn ar gyfer arddangosfa. Ar ôl eu plygu, dim ond tu blaen y person papur oedd i'w weld. Ysgrifennodd y plant eu henwau a phob math o bethau eraill amdanynt eu hunain ar y bobl oedd wedi'u torri allan.

Gyda chymorth, sylweddolodd Daisy bod mwy o bethau y gallai eu hychwanegu ar ôl ei henw a'r frawddeg am y tân, sef pethau y gallai eu gwneud a'r pethau yr oedd hi'n eu mwynhau.

Pan oedd y bobl o bapur i gyd â llinyn drwyddynt ac wedi'u harddangos yn yr ystafell ddosbarth, sylwodd Daisy fod rhai o'r plant wedi ysgrifennu a thynnu lluniau pethau tebyg i'w rhai hi. Roedd y plant eraill hefyd yn gallu dysgu pethau newydd am Daisy, gan gynnwys y pethau yr oedd ganddynt yn gyffredin. Daeth hithau i siarad a gwrando mwy. Daeth yn fwy parod 'i roi cynnig arni'.

Mae **Changing Faces** yn cynnig gwasanaeth, cyngor a chymorth ar gyfer athrawon sy'n gweithio â disgybl y mae salwch neu anafiadau ac ati, wedi effeithio ar sut maent yn edrych. Maent hefyd yn cynnig gwasanaeth hyfforddi ac ymgynghori ehangach ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Changing Faces Cymru**: David Vasmer, 0845 4500 240 neu gyrrwch e-bost at cymru@changingfaces.org.uk

Cyngor Ariannol

Mae erthygl ddiweddaraf cwmni ariannol Sterling, sef "Y Cynnwrf yn y Farchnad Ecwiti" i'w chael ar wefan UCAC yn yr adran sy'n cyfeirio at Gyngor Ariannol Annibynnol.

Mae'r erthygl yn trafod y farchnad Ecwiti a buddsoddi hirdymor yn sgil y cwymp sylweddol ym mhrisiau cyfranddaliadau ar draws y byd.

Gofalaeth Asedau Sterling
Ffôn: (01970) 617622
E-bost: financial@sterling-a-m.com
Gwefan: www.sterling-a-m.com

“Mae pawb yn siarad Cymraeg...”

Does dim disgwyl, greda i, i ysgolion allu llwyddo i newid arferion ieithyddol disgyblion. Mae’r rhain wedi eu seilio’n bennaf ar iaith eu cartref a’u cymuned. Ond mae rhai enghreifftiau o ysgolion Cymraeg sy’n llwyddo’n rhyfeddol i wneud hynny. Byddai’n dda gwneud ymchwil i ganfod y ffactorau sy’n gyfrifol am y llwyddiant.

Mae rhai ffactorau sylfaenol yn gyffredin i ddisgyblion nifer o ysgolion Cymraeg heddiw: daw mwyafrif helaeth y plant o gartrefi Saesneg, ac mae rhieni’r plant wedi dewis addysg Gymraeg iddyn nhw.

Fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, rwy’n ymwybodol o’r her o Gymreigio ysgol. Cychwynnwyd yr ymdrech i Gymreigio Bryn Tawe wrth lunio polisi’r ysgol a phenodi staff. Roedd y llywodraethwyr a’r rhieni yn unfrydol ar hyn. Mae hyn yn allweddol. Gydag argyhoeddiad y dewiswyd llinell leuan Wyn “Ennill llwyr yw ennill iaith” yn arwyddair yr ysgol. Penderfynwyd o’r cychwyn ddysgu pob pwnc trwy’r Gymraeg, a chael y nod o ddefnyddio’r Gymraeg yn naturiol yn flaenoriaeth. Wrth benodi staff, holir am eu hymrwymiad a’u syniadau.

Mae’r ysgol wedi datblygu dulliau gweithredu sy’n hyrwyddo’r nod. Trefnir fod y cyfnod preswyl pontio i ddisgyblion ysgolion cynradd yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae cynllun pontio trylwyr yn gymorth hefyd. Yn yr ysgol rhoddir gwersi ar y Gymraeg a hunaniaeth fel bod y disgyblion yn deall y nod ac yn cael eu sbarduno i fod yn rhan o’r broses. Ceir cynlluniau gwobrwyo manwl iawn, a phroses i’w dilyn yn achos disgyblion sy’n araf wrth ddefnyddio’r Gymraeg.

Mae staff wrth reswm yn annog defnyddio’r Gymraeg ar bob achlysur ac yn gwneud hyn yn y coridorau, ar y buarth ac yn eu hystafelloedd dysgu. Dull arall yw trefnu dosbarthiadau cofrestru sy’n cynnwys disgyblion o bob oed, fel bod y rhai hŷn yn Cymreigio’r rhai iau.

Mae gweithgareddau ategol niferus yn cael eu cynnal i hyrwyddo’r Gymraeg. Mae gan chwaraeon, adloniant ysgafn, a gweithgareddau creadigol le amlwg yn yr ymdrech. Gorffennir yr addysg ffurfiol yn gynnar un diwrnod yr wythnos er mwyn cael rhai oriau o weithgareddau clwb gorfodol i bawb. Mae hyn yn cyfoethogi’r disgyblion a’u defnydd o’r Gymraeg. Mae rhai aelodau staff yn mynd â disgyblion ar weithgareddau penwythnos, ac mae’r Fenter Iaith leol yn trefnu gweithgareddau awyr agored.

Mae’n siŵr bod awyrgylch cyffredinol yr ysgol erbyn hyn yn hyrwyddo’r cyfan, ond mae angen bod yn wyliadwrus ac yn greadigol bob amser. Yr hyn sy’n wych wrth gwrs yw bod y defnydd cyson hwn o’r Gymraeg ar lafar yn rhwym o wella perfformiad addysgol y disgyblion, a sicrhau bod ganddynt feistrolaeth lwyr o’u dwy iaith. Y gobaith wedyn wrth gwrs yw eu bod hwy yn mynd i ddefnyddio’r Gymraeg yn brif iaith eu cartrefi, pan ddaw eu tro.

Heini Gruffudd
Cadeirydd
Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Y Trothwy (Rownd 8/2007-2008)

Pan fyddwch yn cyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau (p’un ai fel athro rhan amser, llawn amser, neu athro cyflenwi) gallwch wneud cais i groesi’r Trothwy Perfformiad a symud i’r **amrediad cyflog uwch.** (Noder mai cyrraedd y pwynt sy’n cyfrif, nid nifer y blynyddoedd o ddysgu.)

Mae’r Safonau Trothwy Perfformiad wedi newid ar gyfer Rownd 8 (2007-2008). Gelwir hwy nawr yn Safonau Ôl-drothwy. Ar gyfer Rownd 8 bydd rhaid gwneud cais cyn Awst 31 2008.

Mae’r ffurflen gais (yn Gymraeg neu’n Saesneg) ar gael o wefan teachernet www.teachernet.gov.uk/threshold ond gwnewch yn siŵr mai ffurflen Rownd 8 sydd gennych, gan fod y gofynion wedi newid a bod ffurflenni o’r rowndiau blaenorol yn dal ar y wefan.

A oes modd ôl-ddyddio tâl Trothwy?
Fe fydd dwy garfan (carfan13 a charfan14) yn perthyn i Rownd 8 y Trothwy.

Carfan 13:
- y sawl ddaeth yn gymwys i ymgeisio yn Rownd 7 am y tro cyntaf (oedd ar M6 ar 1 Medi 2006, neu cyn 31 Awst 2007) ond a ddewisodd peidio â gwneud cais
- y sawl ddaeth yn gymwys i wneud cais mewn unrhyw Rownd flaenorol

Bydd unrhyw un o’r uchod sydd yn llwyddiannus yn Rownd 8 yn symud i U1 ac yn cael y tâl wedi ei ôl-ddyddio i 1 Medi 2007.

Carfan 14:
- y rhai a wnaeth gais am y tro cyntaf yn Rownd 7 ond aseswyd nad oeddynt yn bodloni’r safonau
- rhai sydd yn gymwys i wneud cais am y tro cyntaf yn Rownd 8

Bydd unrhyw un o garfan 14 sydd yn llwyddiannus yn Rownd 8 yn symud i U1 ar 1 Medi 2008.

Mae gan UCAC daflen gwybodaeth i’ch helpu i baratoi’r ffurflen. Ewch i wefan UCAC www.athrawon.com, siaradwch â chynrychiolydd UCAC yn yr ysgol neu ffoniwch y brif swyddfa ar 01970 639950 i gael copi caled.

Elaine Edwards, Swyddog Polisi, elaine@athrawon.com

Eisiau adennill cyfran o’ch tâl aelodaeth?

Mae UCAC yn rhoi cyfle i chi **adennill** cyfran o’ch tâl aelodaeth trwy ddenu athro neu ddarlithydd sydd â mwy na dwy flynedd o brofiad dysgu i ddod yn aelod o UCAC. Mae UCAC yn dibynnu ar **ddylanwad aelodau** fel chi i berswadio eraill i ymuno.

Mae **Swyddogion UCAC**: yn gweithio’n ddiflino dros fuddiannau athrawon Cymru; â **llais cryf** ar **bob corff sydd yn ymwneud â byd addysg** yng Nghymru a rhai perthnasol yn Lloegr; yn mynychu cyfarfodydd yn y **Cynulliad** ac yn **Llundain** yn gyson; yn gwneud defnydd o **rwydwaith o gyfreithwyr**; yn cynnig **cefnogaeth broffesiynol, gyfrinachol a phersonol** pan fo problemau’n codi (nid llais dienw ar ben arall y llinell ffôn).

Ein nod yw:
- **diogelu a gwella** amodau gwaith ein haelodau
- **amddiffyn** aelodau pan fo problemau’n codi
- **ymgyrchu** dros y gyfundrefn addysg orau i Gymru
- **hybu datblygiad** addysg cyfrwng Cymraeg

Mae cynnig **gwasanaeth** o **safon uchel** yn bwysig i ni a chredwn mai UCAC yw’r unig undeb sydd yn brwydro’n uniongyrchol dros fuddiannau athrawon a darlithwyr Cymru.

Felly pwyswch ar eich cyd-athrawon neu gyd-ddarlithwyr i ymuno ag UCAC – ac i’ch enwi chi fel y person sydd wedi’u denu yn aelod.

Cadwch lygad am y manylion llawn fydd yn y **llythyr** y byddwch yn ei dderbyn yn fuan neu ewch i wefan UCAC www.athrawon.com

Adnoddau, Gwefannau a Chyhoeddiadau

Y Ganolfan Astudiaethau Addysg yn dathlu chwarter canrif eleni

Ffurfiwyd Canolfan Astudiaeth Addysg (CAA) Prifysgol Aberystwyth ym mis Medi 1982, yn dilyn cais gan athrawon mewn ysgolion uwchradd dwyieithog i sefydlu canolfan adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg. Heddiw mae CAA yn cynhyrchu deunyddiau addysgiadol o ansawdd uchel yn y Gymraeg ac yn Saesneg, yn llyfrau, CDs, CD-ROMs, pecynnau aml-gyfrwng a gweithgareddau ar-lein, ac wedi cyhoeddi oddeutu 1,800 o gyhoeddiadau ers ei sefydlu.

I nodi'r garreg filltir bwysig hon, cynhaliwyd cinio mawr ym mis Hydref ym Mhenbryn, Aberystwyth i ddathlu pen-blwydd CAA yn 25. Cafwyd noson ddifyr a phleserus yng nghwmni staff, cyn-staff a chyfeillion.

Yng ngeiriau Lynwen Rees Jones, Cyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Addysg: "Gan fod dros hanner cant o ysgolion uwchradd yn cynnig pynciau drwy'r Gymraeg erbyn hyn, a thros 30 o'r rheiny yn ysgolion penodedig Cymraeg neu Ddwyieithog, mae galw cynyddol am adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Ym 1982, safodd 6,390 o ddisgyblion arholiadau Lefel O / TAU y Cydbwyllgor Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 440 yn sefyll arholiadau Safon Uwch. Erbyn 2006, roedd y niferoedd wedi cynyddu'n aruthrol: TGAU, cyrsiau byr - 3,205; TGAU, cyrsiau llawn a galwedigaethol - 19,479; Safon Uwch Gyfrannol - 2,709; Safon Uwch - 2,484. Mae'n amlwg felly bod addysg gyfrwng Gymraeg wedi ennill ei phlwyf, ac mae angen adnoddau o safon ac ansawdd priodol i gefnogi hyn."

Yr holl ddeunydd a gyhoeddwyd gan CAA yn ystod 2007.

Gwefan newydd y Grid Cenedlaethol

www.gcad-cymru.co.uk

Mae gwefan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD Cymru) bellach yn cynnig nifer o wasanaethau newydd i'r defnyddwyr, gan gynnwys **toreth o ddeunyddiau addysgol dwyieithog yn rhad ac am ddim**. Mae'r adnoddau dwyieithog yn addas ar gyfer addysgu disgyblion a phobl ifanc o'r cyfnod sylfaen hyd at 19 mlwydd oed (gan felly fod o ddiddordeb i golegau addysg bellach hefyd).

Ar y wefan newydd ceir yr adran 'Fy GCaD Cymru', lle gall defnyddwyr osod eu hoff adnoddau mewn rhestr yno er mwyn cael mynediad cyflym atynt dro ar ôl tro. Mae'r wefan newydd hefyd yn cynnwys cysylltau â gwefannau eraill sydd o ddiddordeb i addysgwyr gan gynnwys gwefan CBAC – www.cbac.co.uk – lle mae cyfle i brynu adnoddau addysgol yn y siop ar-lein. Maes o law bydd fforwm yn cael ei sefydlu a fydd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr y wefan gyfathrebu â'i gilydd a chyda GCaD Cymru.

Noddir GCaD Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r cynllun yn cael ei reoli gan CBAC.

I gael manylion pellach cysylltwch â: Siân Williams, GCaD Cymru
029 2026 5177 sian.williams@gcad-cymru.org.uk

Gwaith Maes



Ydych chi'n chwilio am ddeunydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer hybu Gwaith Maes?

Beth am edrych ar wefan **www.gwaithmaes.org**?

Ceir amrywiaeth o erthyglau a thaflenni gwaith ar gyfer gwersi **Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, Hanes ac Iaith** sy'n addas ar gyfer ysgolion **Cynradd** ac **Uwchradd**.

Mae stôr o syniadau ar gyfer pob math o bethau – o sut i fynd ati i greu trap tatws, astudio awyrluniau neu ddatblygu sgiliau map. Os nad yw gwaith maes yn yr awyr agored yn bosibl, beth am syniadau i ddatblygu iaith neu astudio hanes tref megis Doc Penfro? Cewch y cyfan ar wefan Gwaith Maes!

Cylchgrawn digidol

Mae **Cymdeithas Gwaith Maes** yn bodoli i hyrwyddo addysg yr amgylchedd yng Nghymru trwy gyhoeddi deunydd ar gyfer ysgolion. Ers chwe blynedd bellach **cyhoeddir cylchgrawn ar ei gwefan**, ddwywaith y flwyddyn, ar ddiwedd mis Tachwedd a mis Mai. Cadwch lygad am y daflen hysbysu sy'n cyrraedd eich ysgol cyn pob rhifyn newydd. Pan gyhoeddir y gwerifyn newydd, symudir cynnwys yr un blaenorol i'r ffolderi storio pynciol perthnasol, i'w hagor a'u defnyddio yn ôl y galw.

Os oes gennych chi syniad am erthygl neu eitem i'w cyhoeddi ar wefan Gwaith Maes, yna byddem yn croesawu derbyn eich cyfraniad. Hoffem hefyd glywed eich ymateb i'r fenter ac unrhyw awgrymiadau i'w hyrwyddo.

Felly beth am roi cipolwg ar werifyn newydd Gwaith Maes Tachwedd 2007?

Gwybodaeth bellach am y Gymdeithas

Mae'r Gymdeithas yn gwbl wirfoddol, yn dibynnu ar nawdd gan nifer o gyrff, a'i diben yw hyrwyddo gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r amgylchedd trwy ei astudio, a thrwy rannu gwybodaeth a phrofiad ohono. Ynghlwm wrth hyn mae'r gred fod diwylliant, hanes ac iaith yn rhan annatod o werthfawrogi ein hamgylchedd, fel y mae dulliau gwyddonol yn sicrhau dealltwriaeth.

Credwn hefyd bod persbectif Cymreig trwy'r iaith Gymraeg yn hanfodol i gyflawni hyn.

Cynhaliwyd pob math o weithgareddau ers sefydlu'r Gymdeithas, ond darparu adnoddau i'w defnyddio gan athrawon prysur yn eu gwaith beunyddiol fu'r prif nod erioed, ac fe bery hynny o hyd.

Ein gobaith yw ysgogi ysgolion a grwpiau eraill i drefnu ymweliadau a gweithgareddau yn y maes yn lleol. Gofalwch sicrhau eich bod yn bodloni rheolau diogelwch eich ysgol a'r awdurdod addysg perthnasol cyn dilyn rhai o awgrymiadau ymarferol Gwaith Maes.